Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Reoledig Wirfoddol Ger y Llan
**Ffordd Tŷ Ddewi**
**Treletert**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA62 5SL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 21/08/12**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Ger y Llan. Lleolir yr ysgol ym mhentref Treletert rhwng Hwlffordd ac Abergwaun yn Sir Benfro. Yn Ionawr 2011, unwyd yr ysgol gydag Ysgol Mathri, a oedd hefyd yn ysgol gynradd dan reolaeth, a derbyniwyd nifer fach o ddisgyblion ychwanegol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol yn byw yn y pentref a'r ardaloedd gwledig o amgylch. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Mae gan 22% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae 147 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys un ar ddeg plentyn o oedran meithrin sydd yn mynychu yn rhan amser.

Mae'r ysgol wedi dynodi 27% o ddisgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ffigwr sydd yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 16% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd. Mae polisi iaith yr ysgol yn nodi mai Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddir Cymraeg a Saesneg fel cyfryngau addysgu ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Ers yr arolygiad diwethaf ym Mehefin 2006, mae newidiadau wedi bod yn arweinyddiaeth yr ysgol ac ymhlith y staff addysgu. Trosglwyddodd yr ysgol i adeilad newydd ar yr un safle yn Ebrill 2012.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers Mai 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ger y Llan yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3444 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £5323 a'r lleiafswm yw £3000. Mae Ysgol Ger y Llan yn safle 38ain o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol:

Mae'r cryfderau yn cynnwys:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod safon yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, yn gwrtais a gydag agweddau da tuag at ddysgu; a
- bod yr ysgol yn gymuned ofalgar gydag ethos croesawgar.

Er hynny:

- mae canlyniadau asesiadau disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn amrywio o gymharu â rhai'r teulu o ysgolion tebyg;
- mae cyflawniad y disgyblion mwyaf galluog yn anwastad ac yn is na'r teulu o ysgolion tebyg mewn sawl pwnc;
- nid yw medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion bob amser yn ddigon cadarn; ac
- nid yw cynllunio'r cwricwlwm yn sicrhau dilyniant cyson yn y dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth newydd yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol gyda ffocws cadarn ar wella safonau;
- bod yr holl staff yn cydweithio'n dda ac yn rhoi mentrau newydd ar waith sydd yn hybu datblygiad addysgol a lles disgyblion yn effeithiol;
- bod y cynllun gwella yn cysylltu'n glir â'r broses hunan arfarnu ac yn cynnwys meysydd priodol i dderbyn sylw;
- bod y strategaethau newydd i wella safonau llythrennedd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion; a bod
- cydweithio llwyddiannus gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r ysgol:

A1 gryfhau medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion;

A2 adeiladu ar y gwelliannau yn safon gwaith y bechgyn yn gyffredinol, ac ymestyn cyflawniad y disgyblion mwyaf galluog ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A3 cryfhau'r cynllunio tymor canolig yng nghyfnod allweddol 2, a hyrwyddo cynnydd cyson yn y medrau dysgu ar draws yr ysgol;

A4 cryfhau'r cynllun datblygu drwy wneud mwy o ddefnydd o dargedau meintiol er mwyn mesur cynnydd; a

A5 datblygu gweithdrefnau lefelu a safoni gwaith disgyblion ymhellach, a sicrhau bod marcio yn cynorthwyo disgyblion i wella safon eu gwaith.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Maent yn cydweithio'n gynhyrchiol â'i gilydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r tasgau a gyflwynir iddynt.

Ar draws y dosbarthiadau, mae bron pob disgybl yn gwrando'n dda. Mae lleiafrif yn siarad am eu gwaith yn hyderus, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir yn y Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn cyfathrebu'n rhydd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ond ymatebion byr a gynigir yn gyffredinol wrth ateb cwestiynau a mynegi barn.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu ystod o strategaethau darllen addas ac yn eu defnyddio'n bwrpasol i wella'u cywirdeb a'u mynegiant. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gymwys gyda lleiafrif yn darllen yn ystyrlon gyda mynegiant da. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn darllen gyda rhuglder digonol ac mae eu gallu i drafod cynnwys eu llyfrau yn annatblygedig.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu'n annibynnol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio geirfa ehangach. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu

gyda rhuglder cynyddol gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi yn gywir. Er hynny, nid yw gafael lleiafrif y disgyblion ar batrymau iaith cywir yn ddigon sicr. Nid yw disgyblion yn gyffredinol yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn trafod yn effeithiol, yn darllen yn ystyrlon ar y cyfan, ac yn ysgrifennu'n gyffredinol gywir.

Ar draws yr ysgol, gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd priodol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u medrau rhif mewn tasgau gwahanol. Er hynny, ni wnânt ddefnydd cynyddol ohonynt mewn ystod o gyd destunau ar draws y cwricwlwm. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n fwy annibynnol yn datblygu'n anwastad ar draws y dosbarthiadau.

Yn asesiadau athrawon tros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion saith oed sydd yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (lefel 2 mewn cyfuniad o'r canlyniadau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru mewn dwy o'r pedair blynedd. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 yn y pynciau ar wahân yn amrywio, gyda chanlyniadau Cymraeg yn dangos tueddiad sylweddol ar i lawr.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion 11 mlwydd oed sydd yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o'r canlyniadau mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran sydd yn cyflawni lefel 4 yn Saesneg a gwyddoniaeth ar wahân yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Mae'n amrywio mewn Cymraeg a mathemateg.

Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, mae cyflawniad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd dros bedair blynedd yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol.

Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni'r lefelau uwch, sef lefel 3 yn y cyfnod sylfaen a lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2, yn anwastad ac yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg mewn sawl pwnc. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer. Er bod rhai amrywiaethau, nid yw'r disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched ar ddiwedd y cyfnodau allweddol er bod amrywiaethau amlwg mewn rhai blynyddoedd. Yn asesiadau statudol athrawon yn y cyfnod sylfaen yn 2011 er enghraifft, mae'r merched yn cyflawni'n well o lawer na'r bechgyn mewn medrau llythrennedd. Mae cynnydd cyffredinol lleiafrif o fechgyn ar draws yr ysgol wedi bod yn anwastad o gymharu â'r merched. Fodd bynnag, mae craffu ar waith cyfredol disgyblion a chanlyniadau asesiadau dosbarth diweddar yn cadarnhau cynnydd mewn medrau darllen, sillafu a mathemateg rhan fwyaf y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall beth yw nodweddion bwyta'n iach a'r effaith y mae'n ei gael ar y corff. Maent yn sylweddoli pwysigrwydd ymarfer y corff a ffitrwydd, ac yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau gwahanol yn rheolaidd.

Mewn trafodaethau, mae'r disgyblion yn datgan eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn mwynhau eu dysgu. Mae eu hymddygiad yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda iawn ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i dderbyn cyfrifoldebau. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n briodol at benderfyniadau ar ystod o faterion ond nid yw eu rolau wedi'u datblygu'n llawn.

O'i gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae presenoldeb disgyblion yn y 50% uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae ymdrechion diweddar yr ysgol i wella presenoldeb yn llwyddo. Bellach, mae'r canran presenoldeb dros 95%, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol a llwyddiannus yn yr ardal leol a'r gymuned ehangach ac yn cymryd rhan yn eiddgar mewn amrywiaeth o weithgareddau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd yn ennyn diddordeb ac yn ymateb i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu a chaiff y gweithgareddau eu cynllunio'n fanwl ar draws y chwe maes dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio tymor canolig bob amser yn sicrhau cysondeb ar draws y pynciau nac yn hyrwyddo dilyniant a pharhad digonol yn y dysgu. Cynllunnir gwersi yn fanwl. Er hynny, nid yw'r gweithgareddau yn cynnig her ddigonol i'r disgyblion mwyaf galluog yn ddigon cyson.

Mae datblygu fframwaith sgiliau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn nodwedd gadarnhaol ond nid yw'r drefn wedi'i sefydlu'n llwyr ar draws yr ysgol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig, cymhwyso medrau rhif a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn cyd-destunau gwahanol yn fwy anwastad. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar a darllen Saesneg ar draws y cwricwlwm yn dda. Nid yw'r ddarpariaeth i hyrwyddo medrau dysgu annibynnol y disgyblion wedi'i sefydlu'n gyson ar draws y dosbarthiadau.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Caiff ymagweddau cadarnhaol eu meithrin, ond nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau dilyniant cyson yn y medrau ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru. Mae'r defnydd adeiladol o ymweliadau ac o gyfraniadau ymwelwyr yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Defnyddir y cwricwlwm, cyswllt gydag ysgolion yn Sweden, gweithgareddau diwylliannol a mentrau Masnach Deg yn briodol i alluogi'r disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda ar y cyfan. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn a gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o strategaethau addysgu ac adnoddau addas i ddatblygu'r dysgu. Mae'r cydweithio effeithiol rhwng y staff addysgu a chynorthwyol yn ychwanegu'n adeiladol at y profiadau dysgu a ddarperir.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi lle mae'r addysgu yn effeithiol, mae'r amcanion a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion, mae ffocws clir ar atgyfnerthu'r medrau, cwestiynu treiddgar a chyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio mewn parau trafod ac mewn grwpiau bach. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r tasgau yn ddigon heriol i ymestyn dysgu'r disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwyaf galluog, ac nid yw trefniadaeth gweithgareddau dewisol bob amser yn sicrhau dysgu cyson.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o'r data a gynhyrchir i fonitro cynnydd y disgyblion ac i strwythuro'r rhaglenni cymorth ychwanegol a ddarperir ar draws yr ysgol. Nid yw gweithdrefnau lefelu a safoni gwaith disgyblion wedi'u datblygu'n llawn ar draws yr ysgol er mwyn cynorthwyo athrawon gyda'r dasg o asesu cyflawniad disgyblion yn gywir a chyson.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu ar draws yr ysgol ac yn dechrau dylanwadu'n bositif ar safonau, yn arbennig ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2.

Mae'r disgyblion yn derbyn adborth effeithiol yn ystod gwersi. Er hynny, nid yw sylwadau ysgrifenedig yr athrawon bob amser o gymorth i'r disgyblion i wella ansawdd eu gwaith.

Mae adroddiadau i rieni yn cyfateb â gofynion statudol ac yn cynnig gwybodaeth eglur ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Hyrwyddir ystod eang o fentrau sydd yn annog bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn cael dylanwad positif ar ddatblygiad y disgyblion. Mae'r berthynas waith adeiladol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol yn cefnogi'r disgyblion a'r staff yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.

Mae'r ysgol yn defnyddio prosesau priodol i adnabod a monitro cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y disgyblion mwyaf galluog. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r ysgol yn datblygu ystod o raglenni ymyrraeth pwrpasol sydd yn symud y dysgu yn ei flaen. Maent yn cynnwys sesiynau gyda ffocws da i gryfhau medrau llythrennedd a mathemateg sylfaenol grwpiau o ddisgyblion. Mae darpariaeth y grŵp magwraeth yn gwneud cyfraniad effeithiol iawn i ddatblygiad disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol penodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a gofalgar yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob disgybl i fanteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol. Llwyddir i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. Rhoddir llawer o bwyslais ar gydweithio a pharchu cyfraniadau eraill.

Mae adnoddau digonol o ansawdd da i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r adeilad newydd yn cynnig ystod o ddosbarthiadau a chyfleusterau dysgu o safon uchel. Gwna'r staff a'r disgyblion ddefnydd llawn ohonynt. Mae'r ystafelloedd yn lliwgar gydag arddangosfeydd o waith y disgyblion sydd yn cefnogi'r dysgu. Mae'r ysgol yn y broses o ddatblygu'r safle allanol fel adnodd dysgu pwrpasol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae disgwyliadau uchel y pennaeth yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae'n adnabod blaenoriaethau datblygu addas ac yn cynnig cyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol sydd yn llwyddo i sicrhau gwelliannau mewn safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mewn sawl maes. Mae ei weledigaeth glir wedi cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a staff. Mae'r holl staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliannau pellach. Yn dilyn cyfnod o newid sylweddol, mae cyfraniad y pennaeth i'r broses o greu amgylchedd dysgu sefydlog i'r staff a'r disgyblion o safon uchel.

Trwy adroddiadau'r pennaeth, ymweliadau monitro a thrafodaethau gyda chydlynwyr a'r cyngor ysgol, mae gan y corff llywodraethol wybodaeth sicr am y ddarpariaeth addysgol a'r heriau a wynebir. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd addas o ddata i fonitro perfformiad yr ysgol ac i gynllunio'n gydweithredol i fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella.

Rhoddir sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu egwyddorion a rhai gweithdrefnau'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn briodol, mae athroniaeth y cyfnod sylfaen wedi'i sefydlu a hyrwyddir strategaethau datblygu medrau llythrennedd yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y pennaeth a'r staff ddealltwriaeth gywir o brif gryfderau a gwendidau'r ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o amrediad o ffynonellau i arfarnu perfformiad yr ysgol, gan gynnwys dadansoddi ystod eang o ddata, arsylwi gwersi, archwilio samplau o waith disgyblion a chynnal arfarniadau o agweddau ar y meysydd dysgu. Rhoddir ystyriaeth lawn i safbwyntiau disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu sydd yn deillio o ddeilliannau'r broses hon yn darparu darlun cytbwys o gryfderau'r ysgol ac yn blaenoriaethu agweddau priodol ar gyfer gwelliant.

Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys meysydd addas ar gyfer gwella safonau disgyblion. Nid yw ychydig o'r targedau, fodd bynnag, yn ddigon penodol ac o ganlyniad nid yw'n hawdd mesur cynnydd bob amser. Llwyddwyd mewn byr amser i osod strategaethau ar waith sydd yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau

llythrennedd, codi lefelau presenoldeb a datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

Caiff yr holl staff eu cefnogi'n dda gan weithdrefnau datblygiad proffesiynol parhaus. Maent yn cydweithio'n bwrpasol mewn cymunedau dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol megis yr ymgyrch i ymestyn medrau llafar y disgyblion. Yn ogystal, mae'r cysylltiadau gydag ysgolion eraill er mwyn arsylwi a rhannu arfer dda yn ehangu gwybodaeth yr athrawon ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r cyd-weithio effeithiol gydag ystod o bartneriaid strategol, sydd yn cynnwys rhieni, y gymuned, yr eglwys ac ystod o fudiadau, yn cael effaith fuddiol ar addysg, lles a datblygiad y disgyblion.

Mae cysylltiadau cadarnhaol iawn gyda rhieni a darperir cyfleoedd addas iddynt dderbyn gwybodaeth am gynnydd a datblygiad eu plant. Mae defnydd adeiladol o holiaduron rhieni a'r ymatebion yn cyfrannu at gynllunio pellach. Mae'r ymgyrch lwyddiannus i wella presenoldeb yn enghraifft o gydweithio effeithiol.

Mae'r bartneriaeth gyda'r gymuned yn dda, ac mae disgyblion yn elwa o gyfraniad mudiadau lleol. Mae'r cynllunio i ddatblygu'r cysylltiadau gyda byd busnes a'r ffocws ar hybu mentergarwch yn ei ddyddiau cynnar.

Mae'r cydweithio gyda'r clwstwr o ysgolion lleol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu'r ddarpariaeth a chymedroli gwaith disgyblion. Ceir cysylltiadau cwricwlaidd da a gweithdrefnau trosglwyddo o ansawdd uchel gyda'r ysgol uwchradd. Mae'r cysylltiadau agos gyda'r awdurdod lleol yn cyfrannu at sicrhau gwelliannau pellach i'r ddarpariaeth.

### Rheoli adnoddau: Digonol

Mae digon o athrawon cymwysedig i addysgu'r cwricwlwm yn briodol. Mae'r drefn sefydlog o reoli perfformiad staff yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon. Caiff staff cynnal eu lleoli'n effeithiol ar draws yr ysgol a gwneir defnydd da o'u medrau personol.

Mae'r adeilad newydd yn cynnig amgylchedd dysgu deniadol a diogel. At ei gilydd, mae ystod a chyflenwad digonol o adnoddau a defnyddir hwy yn effeithiol ar gyfer cefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r pennaeth, pwyllgor cyllid y corff llywodraethol a swyddogion yr awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol i reoli cyllideb yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth briodol i sicrhau cyflenwad digonol o staff ac i gefnogi'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

O ystyried deilliannau'r disgyblion dros gyfnod, agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm a bod rhai blaengareddau yn dal i ddatblygu, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y cyfnod sylfaen, mae canran y disgyblion saith oed sydd yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (lefel 2 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân yn amrywio. Mae canlyniadau mathemateg yn uwch na chymaryddion yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Mae canlyniadau gwyddoniaeth yn uwch mewn dwy flynedd gyda chanlyniadau Cymraeg yn debyg neu yn is ac yn dangos tueddiad ar i lawr. Cafodd canlyniadau 2011 eu heffeithio'n sylweddol gan y canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sef 63%, ym mlwyddyn 2.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed o ran y dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2011, gwelwyd gostyngiad yn y canlyniadau. Dynodwyd 55% o'r disgyblion ym mlwyddyn 6 fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 4 yn Saesneg a gwyddoniaeth fel pynciau ar wahân wedi bod yn uwch na chymaryddion mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'n uwch neu'n debyg yn y Gymraeg. Mewn mathemateg, mae'n uwch mewn dwy flynedd allan o bedair.

Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae canlyniadau'r disgyblion yn y dangosydd pwnc craidd dros bedair blynedd yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau'r disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn dwy o'r pedair blynedd.

Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 3 yn y cyfnod sylfaen yn anwastad. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'n uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn y Gymraeg, mae'n is. Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2 yn anwastad mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y Gymraeg a Saesneg, mae'n is na chymaryddion mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn y ddau gyfnod allweddol, nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod amrywiaethau amlwg mewn rhai blynyddoedd. Yn asesiadau 2010 a 2011 yn y cyfnod sylfaen, mae yna fwlch gyda'r merched yn cyflawni'n well o lawer na'r bechgyn mewn medrau llythrennedd, yn arbennig medrau llafar a darllen. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth 2011 hefyd yn dangos rhai amrywiaethau mewn perfformiad.

Yn asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, mae'r canran sydd yn cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn anwastad. Mae'n dangos gostyngiad o gymharu â chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau llafar a darllen Cymraeg yn anwastad, ond maent yn debyg neu'n uwch na'r teulu o ysgolion tebyg mewn ysgrifennu yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn Saesneg, mae canlyniadau llafar, darllen ac ysgrifennu yn debyg neu'n uwch na chymaryddion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 39 o holiaduron gan rieni. Maent yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent o'r farn bod ymddygiad y disgyblion yn dda, gyda bron pob un yn dweud fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu trin yn deg. Mae pawb o'r farn fod yr addysgu yn dda a bod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed. Mae bron pob un yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol. Credant fod y gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Dywedant fod yr ysgol yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag unrhyw anghenion unigol penodol. Maent o'r farn fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Teimlant fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer yn nodi eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac mae bron pob un yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw fater gyda'r ysgol. Maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae llawer o'r farn bod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae pawb o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr:

Cwblhaodd 77 o ddisgyblion yr holiadur. Mae bron pob un yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth. Maent yn nodi fod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda. Mae bron pob un yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Teimlant fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Mae llawer yn credu bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser chwarae a'r egwyl ginio.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Brinley Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Sarah T Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elin Evans | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.